

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos
Sadwrn, 24 Medi 2011 yn Hostel Trefin**

Presennol: Presennol: Arwel (AR) – Cadeirydd ,Guto (GE), Rhys (RD), Iolo (IPR), Sian (SS),Gareth (GR), Marion (MH), Alwen (AW).

Ymddiheuriadau: Anita , Dai ,Iolo, Maldwyn,John

1.	COFNODION	Gweithredu
	<p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21Mai, 2011</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 2 - Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011</u> Nodwyd y methwyd cael stondin ar y maes eleni ond llwyddwyd i gynnal gweithgareddau cerdded a dringo yn ystod yr wythnos</p> <p><u>Eitem 3 – Llyfryn Mynydda</u></p> <p>Adroddwyd na fu cynnydd hefo hyn. AR a RD i drafod i weld lle roeddem wedi cyrraedd. SS i edrych os oedd siop Palas Print Caernarfon yn dal i'w werthu</p>	AR/DT
2.	<p>CANLLAWIAU TEITHIAU'R CLWB</p> <p><u>Cofnodi Pwyntiau Cyswllt</u></p> <p>Adroddwyd y penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor y dylid ystyried effeithiolrwydd y drefn a fabwysiadwyd o gofnodi enwau a rhifau ffôn cyswllt aelodau ar ddechrau teithiau.</p> <p>Roedd yna gonsensws ymysg aelodau'r pwyllgor tra bod y syniad tu cefn i wneud hyn yn un gwerthfawr, ar ôl 6 mis roedd yna bryderon os yr oedd yn ymarferol a'i fod yn rhoi gormod o gyfrifoldeb ar arweinyddion teithiau. Roedd yna dystiolaeth nad oedd yn digwydd fel mater o drefn ar gychwyn teithiau'r clwb. Roedd yna gytundeb y dylid newid y ffocws ar hyn a bod y cyfrifoldeb yn cael ei roi ar bob aelod i sicrhau eu bod yn cario yn eu bagiau manylion am bwynt cyswllt a hefyd am unrhyw broblemau iechyd allasai effeithio ar driniaeth feddygol.</p> <p>PENDERFYNWYD bod y pwyllgor am hysbysu'r cyfarfod blynyddol ym mis Hydref y credai y dylid newid ffocws y drefn a fabwysiadwyd ynglŷn â chael gwybodaeth am bwyntiau cyswllt yn dilyn damwain Llew ar y llinellau uchod.</p> <p>Byddai Rhys yn paratoi nodyn a ellir ei gynnwys ar bob rhaglen weithgareddau'r clwb ac ar y wefan a fyddai'n gosod allan y drefn uchod.</p> <p><u>Graddio Teithiau Dringo</u></p> <p>Adroddwyd fod Dilwyn Williams wedi cyflwyno syniadau ar gyfer graddio safon sesiynau dringo'r clwb a sgiliau dringo aelodau gyda'r bwriad fod pawb sy'n troi allan i sesiynau dringo yn gymwys a diogel i gymryd rhan.</p> <p>Roedd aelodau'r pwyllgor yn gytûn ag awgrym Dilwyn ei fod yn bwysig sicrhau bod dringwyr ond yn mynychu'r sesiynau hynny a oedd yn addas i'w sgiliau. Er hynny, teimlwyd mai'r ffordd fwyaf ymarferol i symud hyn ymlaen fyddai pennu bod angen i'r arweinydd dringo raddio'r sesiwn dringo wrth ei rhoi yn y rhaglen, yn hytrach na cheisio graddio'r unigolion oedd yn mynychu ar y diwrnod. Nid oes gan arweinyddion dringo'r Clwb y cymwysterau i raddio dringwyr, a byddai trefn raddio</p>	IPR RD

	<p>o'r fath yn gorfod cael ei hachredu cyn gwneud cais am yr yswiriant angenrheidiol. Roedd yna farn hefyd mai dim ond offer dringo'r clwb a ddylid ei ddefnyddio yn y sesiynau hyn.</p> <p>PENDERFYNWYD y dylai sesiynau dringo nodi y math o ddringo sy'n cael ei gynnig. Cynigir y canllaw canlynol i'w ddefnyddio gan drefnwyr sesiynau dringo at bwrpas rhaglen weithgareddau'r Clwb:</p> <p>'Dylid cynnwys disgrifiad(au) perthnasol o 1 a 2 yn y rhaglen:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Natur y dringo: nodi – <i>“dringen sengl”</i> neu <i>“amlddringen”</i> (neu'r ddau); 2. Her y dringo a phrofiad y dringwyr: nodi e.e. – <ul style="list-style-type: none"> • <i>“Anodd - dim ond yn addas ar gyfer dringwyr profiadol sy'n gymwys i arwain”;</i> • <i>“Canolig - addas ar gyfer dringwyr heb brofiad arwain, os dônt gyda phartner profiadol sy'n gymwys i arwain”;</i> • <i>“Blasu - addas ar gyfer dechreuwyr a dringwyr di-brofiad – darperir offer ac arweiniad i dechnegau dringo”;</i> • <i>“Agored – addas ar gyfer dringwyr o bob gallu”.</i> <p>Mae'r Clwb yn cefnogi unrhyw arweinydd sy'n anfodlon cytuno i rywun ddringo oherwydd offer anaddas neu annigonol, neu oherwydd casglu bod natur y dringo'n rhy anodd.'</p>	MPR
<p>3.</p>	<p>CYFARFOD BLYNYDDOL 2011</p> <p>Adroddwyd bod y cyfarfod blynyddol eleni i'w gynnal ar nos Sadwrn, 29 Hydref, 2011 yng Ngwesty'r Llong yn Nolgellau. Y gŵr gwadd fyddai Elfyn Jones o'r CMP.</p> <p>Gofynnwyd a fyddai AR yn cadarnhau hefo Elfyn Jones yn union pa offer fyddai angen ar gyfer ei gyflwyniad a hefyd i gadarnhau ei ddewisiadau bwyd ef (a'i bartner os yn briodol) ar gyfer y noson. Byddai'r clwb yn talu am y bwyd</p> <p>Nid oedd y pwyllgor mewn lle i allu enwebu 3 aelod i'w gyfethol i wasanaethu arno am y flwyddyn nesaf fel y nodir yn y cyfansoddiad. Roedd yna farn y dylid maes o law ail-edrych ar y cyfansoddiad ynglŷn â'r drefn o gael unigolion i wasanaethu ar y pwyllgor fel bod yna gydbwysedd gwell rhwng cael aelodau newydd i ddod ar y pwyllgor ond hefyd yn cadw elfen o barhad yn yr aelodaeth.</p> <p>IPR i gadarnhau os oedd y swyddogion am barhau yn eu swyddi am y flwyddyn i ddod.</p> <p>Cytunwyd y gellid cynnwys canllawiau teithiau'r clwb, fforwm aelodau ag offer (dillad) fel eitemau i'w codi yn y cyfarfod.</p>	<p>AR</p> <p>IPR</p> <p>IPR</p>
<p>4.</p>	<p>FFORWM TRAFOD AR SAFLE WE'R CLWB</p> <p>Cododd AR y syniad o sefydlu fforwm ar safle We'r clwb a ellid ei ddefnyddio gan aelodau i gysylltu â'i gilydd ar wahanol faterion.</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn roedd yr aelodau yn gytûn fod yna werth rhoi ystyriaeth i'r syniad yma a nodwyd yr isod fel rhai o'r materion a ellid eu codi ar y fforwm</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os aelod am fynd ar daith gofyn os byddai aelod arall yn hoffi ymuno a hwy • Gofyn am gyngor neu farn aelodau am wahanol faterion • Aelod eisiau gwerthu neu brynu offer 	

	<p>PENDERFYNWYD y byddai o werth symud ymlaen hefo hyn a dylid cysylltu hefo lolo fel Ysgrifennydd y We i ofyn am ei farn ar hyn gan nodi hefyd ei fod yn agored iddo gael cymorth i greu'r fforwm ac y byddai'r clwb yn fodlon talu am y cymorth hwn os angen.</p>	IAG
5.	<p>OFFER</p> <p><u>Offer Dringo</u></p> <p>Adroddwyd na fyddai Anita yn gallu cadw offer dringo'r clwb yn y Gogledd bellach ac y byddai AR yn gyfrifol am hyn o rŵan ymlaen</p> <p>Adroddodd AR bod yna stoc ddigonol o offer ar hyn o bryd ond y byddai'n rhaid cadw llygaid ar gyflwr y rhaffau. Nododd hefyd gan fod llai o ddefnydd ar y stoc a gedwir yn y de i weithgareddau dringo ei fod yn bosib cyfnewid rhaffau'r De a'r Gogledd i sicrhau gwell defnydd ohonynt.</p> <p><u>Taflunydd</u></p> <p>Cytunwyd ag awgrym SS y byddai o werth i'r clwb brynu taflunydd digidol ar gyfer nosweithiau cymdeithasol y clwb. Cytunwyd y dylid gofyn am farn lolo am y math addas i'w brynu ac y byddai SS yn gyfrifol am ei gadw.</p> <p><u>Dillad</u></p> <p>Adroddodd GE ei fod wedi cael prisiau ar gyfer Crysau Polo/Siacedi Fleece a Chrysau Chwys hefo logo'r clwb arnynt gan gwmni o Abertawe. Roedd y cwmni yn fodlon derbyn archebion unigol gan aelodau'r clwb am yr eitemau yma. Roedd pawb yn gytun y bod y prisiau a nodwyd yn dderbyniol tu hwnt ac y dylid symud ymlaen i sicrhau fod yr aelodau yn ymwybodol y gellid eu prynu.</p> <p>PENDERFYNWYD y dylid arddangos enghreifftiau o'r dillad yma yn y cyfarfod blynyddol yn Nolgellau gan roi cyfle i aelodau allu rhoi archeb i mewn os dymument. I hyrwyddo hyn cytunwyd gofyn i GE drefnu i archebu un o bob un o'r eitemau o ddillad dan sylw ar gyfer eu dangos yn y cyfarfod ac y byddai'r clwb yn ei ddigolledu am hyn. Gofynnwyd hefyd a fyddai'n gofyn i'r cwmni am bris am fathodyn hefo logo'r clwb a ellir ei wno ar sachau.</p> <p>Gellid hefyd defnyddio safle We'r clwb i roi manylion am y dillad a sut i'w harchebu.</p>	<p>AR</p> <p>AR</p> <p>SS</p> <p>GE/GR</p> <p>IAG</p>
6.	<p>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</p> <p>Adroddwyd gan IPR fod yna seminar i glybiau i'w gynnal gan y CMP ar ddydd Sadwrn, 22 Hydref, 2011 ym Mhlas y Brenin.</p>	
7.	<p>PARTNERIAETH AWYR AGORED</p> <p>Nodwyd er gwybodaeth fod cyswllt at gylchlythyr diweddaraf y Bartneriaeth ar safle We'r Clwb.</p> <p>Roedd yna deimlad yn y pwyllgor fod y clwb ddim yn gwneud digon o ddefnydd o'r hyn oedd gan y Bartneriaeth i'w gynnig i'r aelodau a chytunodd AR i godi hyn yn y cyfarfod blynyddol</p>	AR
8.	<p>RHAGLEN GWEITHGAREDD NESAF Y CLWB.</p> <p>Nodwyd y bydd MPR yn gweithio ar baratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y clwb am y cyfnod o Dachwedd 2011 ymlaen a'i fod angen derbyn awgrymiadau am deithiau mor fuan â phosib.</p>	MPR

	<p>Gofynnwyd a fyddai'n bosib atgyfodi penwythnos ar Ynys Arran yn yr Alban ar raglen weithgareddau'r clwb. Cytunwyd fod hyn yn bosib ar gyfer y flwyddyn nesaf ond byddai angen rhywun i'w drefnu</p> <p>Bod angen gofyn i Morfudd os byddai'n bosib trefnu penwythnos yn Rhyd-ddu eto dechrau'r flwyddyn gan y byddai angen llogi'r ganolfan.</p> <p>Adroddwyd hefyd fod Anita wedi codi os oedd angen rhoi mwy o sylw ar y rhaglen pan drefnir sesiynau hyfforddi dan arweiniad aelodau'r clwb gan eu bod yn gyfle gwych i aelodau fanteisio ar brofiad gwerthfawr a sylweddol eu cyd-aelodau yn y clwb ac yn rhywbeth a fyddai'n costio sylweddol iddynt fel arall. Cytunwyd fod yna werth ceisio rhoi mwy o sylw i weithgareddau hyfforddi'r clwb ar y rhaglen ac ar y safle We .</p>	
<p>9</p>	<p>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</p> <p>Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor yn ystod penwythnos Rhyd-ddu yn Ionawr 2012 os cynhelir y penwythnos. Os ddim IPR i drefnu mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd.</p>	<p>IPR</p>